CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 27 Hydref 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 21 Hydref 2022.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Hinchey (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Green, Gunter, Henshaw, Hopkins, Humphreys, Hunt, Jenkins, Jones, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lay, Lent, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Jackie Parry, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

21 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad ar gyfer y Cynghorydd Goodway

22 : DATGAN BUDDIANT

Cafwyd y datganiadau buddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| Enw | Rhif yr Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Cyng Mackie | Eitem 8 | Buddiant Personol - Aelod o'r Teulu yn Bennaeth Gofal Integredig |
| Cyng Lister | Eitem 8 | Buddiant Personol - Aelod o'r Teulu yn cael ei g/chyflogi gan Gofal a Thrwsio |
| Cyng Stubbs | Eitem 12 | Buddiant Personol - Cadeirydd Elusen yn y Sblot sy'n cefnogi pobl sy'n profi anawsterau gyda chostau byw. |

23 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion 29 Medi yn gywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Brown-Reckless a gadarnhaodd ei bod yn dymuno gwneud y datganiad canlynol:

‘Hoffwn ymddiheuro i’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol, Davina Fiore, am sylwadau a wnaed gennyf yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor yn ystod fy nghyfraniad ynghylch sefydlu

Pwyllgor Cynghori ar gyfer trefniadau Ymddiriedolaeth Maendy, a hoffwn bwysleisio fy mod yn gwneud yr ymddiheuriad hwn yn ddiffuant.

I dynnu llinell o dan y mater hwn fel y gallwn ni i gyd symud ymlaen mewn ffordd gadarnhaol, rwyf yn tynnu'n ôl yn ffurfiol yr holl sylwadau a wnaed gennyf ar y mater hwn, fel nad oes unrhyw amheuaeth bod fy sylwadau wedi'u dad-ddweud.

Mae'n bwysig i mi gael perthynas dda â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol o hyn allan, fel fy mherthynas â phawb arall, a hoffwn i hyn fod yn ddwyochrog. Rwy'n mynegi'r ymddiheuriad hwn mewn ysbryd da, ac mae'n wirioneddol ddrwg gennyf.'

## 24 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd

## 25 : DEISEBAU

Derbyniwyd y deisebau canlynol:

| Enw | Nifer y llofnodion perthnasol | Natur y Ddeiseb |
|---|---|---|
| Mrs Mary Pearce | 536 | Yn galw ar y Cyngor i ddarparu gwasanaeth bws dibynadwy a mwy mynych rhwng canol Caerdydd a Radur a Threforgan |
| Cyng Hunt | 32 | Yn gofyn i'r Cyngor ymestyn y llinellau melyn dwbl wrth y fynedfa i Redwood Court, Caerdydd |
| Cyng Cunnah | 27 | Yn galw ar y Cyngor i gyflwyno Gorchmynion Parcio yn Anstee Court, Caerdydd |

## 26 : CYHOEDDIADAU YR ARGLWYDD FAER

Gwnaeth yr Arglwydd Faer y cyhoeddiadau a ganlyn a bu'n bresennol yn y digwyddiadau a ganlyn:

- Llongyfarchodd y Cyng Bethan Proctor a'i phartner Tom, ar enedigaeth eu merch, Mali Eluned Stride;
- Ymwelodd â Hanner Marathon Caerdydd, a dechrau'r Hanner Marathon - llongyfarchiadau i'r Arweinydd, i'r Dirprwy Arweinydd a'r Cyng Helen Lloyd Jones;
- Gwobrau "rhyddid" cyngor cymuned Pentyrch gyda chynghorwyr lleol a'r AS;
- Rhoddodd anerchiad yn y Gynhadledd Iechyd Meddwl yn y Village Hotel, a chyflwyno gwobr Trudy Williams;
- Ymwelodd â nifer o Gartrefi Gofal a phrosiectau chwarae, gan gynnwys prosiect chwarae Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar Elm St;
- Bu'n bresennol mewn digwyddiad i fendithio'r ystafelloedd dosbarth newydd yn Ysgol Gynradd St Albans yn Nhremorfa, gydag Archesgob Caerdydd a'r Cyng Ed Stubbs a Jane Henshaw.
- Cyflwyno gyddflieiniau gwyn wedi'u haddurno i oddeutu 80 o Sgowtiaid yr Arglwydd Faer yn Neuadd Prifysgol Caerdydd;

- Cyfarfod â'n Cwnsler Cyffredinol newydd ar gyfer Iwerddon, Mrs Denise Quade;
- Croesawu dros 30 o ddinasyddion newydd y DU yn ein seremoni Dinasyddion Prydeinig yn Neuadd y Ddinas;
- Agor Ystafell Gymunedol newydd yn Asda ym Mae Caerdydd, gyda'r plant ysgol yn gofyn imi ymgymryd â her y peiriant Seiclon ar y diwedd;
- Cyflwyno gwobrau i gricedwyr ifanc o Glwb Criced Llys-faen yn Cathays;
- Croesawu grŵp o fyfyrwyr rhyngwladol o'r Swistir, yr Almaen a Ffrainc yn y Plasty, a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda nhw;
- Agor Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd yng ngwesty Jurys, gyda rhai syniadau gwych ac arleosol yn cael eu cynnig i wneud cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr ffordd yn fwy diogel;
- Cwrdd â staff yn Hosbis y Ddinas yn yr Eglwys Newydd gyda Nicky Piper ac Amanda Fenton, y Cadeirydd Codi Arian, er mwyn cael dealltwriaeth well o'r gwaith gwych maen nhw'n ei wneud yng Nghaerdydd wrth gefnogi pobl sy'n derbyn gofal lliniarol.
- Mynd i ddathliad 10 mlynedd Synagog Unedig Caerdydd yng Nghyncoed gyda'r Rabïaid lleol a Phrif Rabïaid y DU;
- Wedi bod yn bresennol yng Ngwobrau Gofal Cymru ddydd Gwener diwethaf yn Neuadd y Ddinas, a chyflwyno gwobrau. Wrth i unigolion adrodd eu hanes, cefais fy atgoffa o faint ein dyled i'r gofalwyr a'r sefydliadau iechyd a oedd ar y rheng flaen yn ystod y pandemig;
- Bûm yn bresennol mewn dathliadau gwych ar gyfer Diwali, gan gynnwys neuadd dan ei sang yn Stryd Mardy, Grangetown yr wythnos hon gyda Vaughan Gething a'r Cyng Ash Lister;
- diolch i'r Cyng Norma Mackie am drefnu Noson Gwis ac Ocsiwn yng Nghlwb Athletau Caerdydd, a gododd dros £800 er budd apêl Elusen yr Arglwydd Faer, Cŵn Tywys Cymru, a diolch i'r Cyng Joel Williams am drefnu bore coffi - mae e wedi rhannu'r manylion; a

Nodyn i'ch atgoffa y bydd Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal yng Ngerddi Alexandra, ddydd Sul 13 Tachwedd am 10-12.30am, ac y bydd amryw o wasanaethau lleol eraill yn cael eu cynnal mewn ardaloedd fel Treganna, Tredelerch a'r Eglwys Newydd, a gwasanaeth i Aelodau Du y Lluoedd Arfog ar 5 Tachwedd.

## 27 : ADRODDIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2021 - 2022

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r aelodau am weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cytuno i nodi Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys 2021/2022.

## 28 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL YR AWDURDOD LLEOL

Er mwyn i'r Cabinet ystyried trydydd Adroddiad Blynyddol ar ddeg y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel sy'n ofynnol o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf GCLl).

Mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor yn ôl y gyfraith (Adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) lunio a chyhoeddi Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) sy'n cynnwys asesiad o ddigonolrwydd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir o ran y Gwasanaeth i Oedolion a'r Gwasanaeth i Blant. Mae'r adroddiad cyntaf o'i fath ar gyfer rhanbarth Caerdydd a'r Fro wedi'i gynnwys yn rhan o ddogfennau ategol Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2021/22 (gan gynnwys yr ASF yn Atodiad 5) i'w ystyried gan y Cyngor.

29 : ADRODDIAD LLESIANT BLYNYDDOL

Dyma oedd adroddiad perfformiad blynyddol y Cyngor, a roddai asesiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni blaenoriaethau'r weinyddiaeth, fel y'u nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni nifer o rwymedigaethau statudol, gan gynnwys hunanasesiad o berfformiad, fel sy'n ofynnol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chyhoeddi Adroddiad Llesiant Blynyddol, fel sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cynigiodd y Cynghorydd Bablin Molik y dylid cyfeirio'n ôl, ac eilliwyd hynny gan y Cynghorydd Joel.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ynghylch cyfeirio'n ôl.

COLLWYD y cynnig i gyfeirio'n ôl.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ynghylch yr argymhellion yn yr adroddiad.

CARIOWYD yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO i gymeradwyo Adroddiad Llesiant Blynyddol 2021/22 er ystyriaeth gan y Cyngor.

30 : CHWECHED ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Roedd yr adroddiad yn esbonio pwrpas proses Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), ac yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer chweched AMB CDLl Caerdydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO i gymeradwyo'r chweched AMB i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022.

31 : DATGANIADAU'R CABINET

Datganiad yr Arweinydd
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ynghylch;

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
- Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Datganiad y Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymatebodd y Cynghorydd Lister i gwestiynau ynghylch:
- Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd 2022-24
- Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol 2022

Datganiad Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd
Ymatebodd y Cynghorydd Bradbury i gwestiynau ynghylch:
- Rhaglen Brechiadau Atgyfnerthu COVID-19 yr Hydref
- Lansio Cynllun Tanwydd y Gaeaf
- Tasglu Cymorth Costau Byw
- Mannau Cynnes a Bwyd i Bobl Ifanc

Datganiad Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol
Ymatebodd y Cynghorydd De'Ath i gwestiynau ynghylch:
- Prosiectau Trafnidiaeth

Datganiad y Dirprwy Arweinydd ac Addysg
Ymatebodd y Cynghorydd Merry i gwestiynau ynghylch:
- Cinio Ysgol am Ddim i Blant Ysgol Gynradd

Datganiad Newid Hinsawdd
Ymatebodd y Cynghorydd Wild i gwestiwn ynghylch:
- Ehangu Ailgylchu ar Wahân
- Casgliadau Gwastraff Gardd Misol
- Fflyd Ysgubwyr Mecanyddol Bach

Datganiad Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau
Ymatebodd y Cynghorydd Burke-Davies i gwestiynau ynghylch:
- Coed Caerdydd

Datganiad Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
Ymatebodd y Cynghorydd Weaver i gwestiynau ynghylch:
- Diweddariad Ariannol
- Bobi Chatbot

Datganiad Tai a Chymunedau
Ymatebodd y Cynghorydd Thorne i gwestiynau ynghylch:
- Cynhadledd Tenantiaid 2022
- Estyniadau Cartref Modiwlar
- Atal Digartrefedd

Datganiad Buddsoddi a Datblygu
Yn absenoldeb y Cynghorydd Goodway ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ynghylch:
- Diweddariad ar Gynllun Adfywio Llanrhymni

Rhagolygon Economaidd Caerdydd

32 : HYSBYSIAD O GYNNIG - 1

Nododd yr Arglwydd Faer fod Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn i'w ystyried. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Thomson a'r eiliwr oedd y Cynghorydd Moultrie. Roedd un Gwelliant wedi dod i lawr gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Thomson i gyflwyno'r cynnig, fel a ganlyn:

*Mae'r Cyngor hwn yn gresynu at yr anhrefn economaidd a achoswyd gan 'fini-gyllideb' y Canghellor ym mis Medi, a achosodd i*

- *Sterling gwympo i'w werth isaf erioed yn erbyn y doler, gan gynyddu costau mewnforion*
- *Cynnydd mewn cyfraddau llog a channoedd o gynhyrchion morgais yn cael eu tynnu'n ôl*
- *Bygythiadau hylifedd i amryw o gynlluniau pensiwn mawr, gan ysgogi Banc Lloegr i brynu Bondiau gwerth amryw o biliynau o bunnoedd, wedi'i ariannu gan drethdalwyr, i "adfer gweithrediad y farchnad".*

*Arweiniodd hyn yn uniongyrchol at waethygu effeithiau'r Argyfwng Costau Byw ar breswylwyr Caerdydd, a oedd eisoes yn sylweddol.*

*Mae’r Cyngor yn nodi gyda phryder nad oedd y 'fini-gyllideb' yn rhoi unrhyw gymorth newydd i wasanaethau cyhoeddus, ac mae’n nodi ymhellach y bydd y penderfyniad dilynol i ohirio’r Adolygiad o Wariant yn achosi toriadau sylweddol mewn termau real i gyllidebau'r Cyngor ar adeg pan rydym yn ymdrin â phwysau chwyddiant digynsail ac ymchwydd yn y galw am wasanaethau, gan nodi bod ymhell dros £300 miliwn wedi'i dorri o gyllideb y Cyngor hwn yn sgil degawd o gyni.*

*Yn benodol, mae’r Cyngor yn mynegi pryder aruthrol fod y bwlch cyllidebol o'i flaen yn y flwyddyn ariannol nesaf bellach yn £53 miliwn, ac y bydd yn arwain at doriadau dwfn oni fydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn briodol ym mhob un o’r pedair gwlad.*

*Mae’r Cyngor yn croesawu’r gwaith y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud i roi'r gefnogaeth orau i breswylwyr yn y cyfnod heriol hwn – gan gynnwys sefydlu mannau cynnes yn ein hybiau, cryfhau gwasanaethau cyngor ariannol ac i mewn i waith, ehangu cymorth i helpu pobl ddigartref, a sefydlu Tasglu Costau Byw i gydgysylltu cymorth â phartneriaid eraill – ond mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd angen hyd yn oed mwy o gymorth os na fydd Llywodraeth y DU yn cynyddu budd-daliadau'n unol â chwyddiant (yn unol â'r bygythiad).*

*Mae'r Cyngor yn penderfynu*

- *Datgan argyfwng Costau Byw i gydnabod y pwysau ariannol digynsail sy'n wynebu preswylwyr a gwasanaethau'r Cyngor*

- *Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei chynnig mewn ymateb i'r argyfwng*
- *Condemnio camdriniaeth ddiweddar y Llywodraeth ag economi'r DU, a galw ar y Prif Weinidog a'r Canghellor i ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus yn briodol, gan gynnwys Cynghorau*
- *Cefnogi'r egwyddor mai'r rhai sydd yn fwyaf abl i dalu - boed y rheiny'n unigolion neu'n gorfforaethau - a ddylai ysgwyddo'r baich mwyaf wrth ymateb i'r Argyfwng Costau Byw chydbwyso cyllid y cenhedloedd.*
- *Gofyn i'r Cabinet roi diweddariad rheolaidd i'r Cyngor ynghylch effaith yr argyfwng Costau Byw ar y gallu i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ac ar ein gwaith i helpu'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed yn ein Dinas.*

Cadarnhaodd y Cynghorydd Thomson fod y gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Carter ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Taylor wedi'i dderbyn yn rhannol.

Dyma'r Cynnig Diwygiedig:

Mae'r Cyngor hwn yn gresynu at yr anhrefn economaidd a achoswyd gan Brexit a 'mini-gyllideb' y Canghellor ym mis Medi, a arweiniodd at

gwymp Sterling i'w werth isaf erioed yn erbyn y doler,
ac at gynyddu costau mewnforion

· Cynnydd mewn cyfraddau llog a channoedd o gynhyrchion morgais yn cael eu tynnu'n ôl

· Bygythiadau hylifedd i amryw o gynlluniau pensiwn mawr, gan ysgogi Banc Lloegr i brynu Bondiau gwerth amryw o biliynau o bunnoedd, wedi'i ariannu gan drethdalwyr, i "adfer gweithrediad y farchnad". Arweiniodd hyn yn uniongyrchol at waethygu effeithiau'r Argyfwng Costau Byw ar breswylwyr Caerdydd, a oedd eisoes yn sylweddol.

Mae'r Cyngor yn nodi gyda phryder nad oedd y 'fini-gyllideb' yn rhoi unrhyw gymorth newydd i wasanaethau cyhoeddus, ac mae'n nodi ymhellach y bydd y penderfyniad dilynol i ohirio'r Adolygiad o Wariant yn achosi toriadau sylweddol mewn termau real i gyllidebau'r Cyngor ar adeg pan rydym yn ymdrin â phwysau chwyddiant digynsail ac ymchwydd yn y galw am wasanaethau, gan nodi bod ymhell dros £300 miliwn wedi'i dorri o gyllideb y Cyngor hwn yn sgil degawd o gyni.

Yn benodol, mae'r Cyngor yn mynegi pryder aruthrol fod y bwlch cyllidebol o'i flaen yn y flwyddyn ariannol nesaf bellach yn £53 miliwn, ac y bydd yn arwain at doriadau dwfn oni fydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn briodol.

Mae'r Cyngor yn croesawu'r gwaith y mae Cyngor Caerdydd yn ei wneud i roi'r gefnogaeth orau i breswylwyr yn y cyfnod heriol hwn – gan gynnwys sefydlu mannau cynnes yn ein hybiau, cryfhau gwasanaethau cyngor ariannol ac i mewn i waith, ehangu cymorth i helpu pobl ddigartref, a sefydlu Tasglu Costau Byw i gydgysylltu cymorth â phartneriaid eraill – ond mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd angen

hyd yn oed mwy o gymorth os na fydd Llywodraeth y DU yn cynyddu budd-daliadau'n unol â chwyddiant (yn unol â'r bygythiad).

Mae'r Cyngor yn penderfynu

· Datgan argyfwng Costau Byw i gydnabod y pwysau ariannol digynsail sy'n wynebu preswylwyr a gwasanaethau'r Cyngor

· Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei chynnig mewn ymateb i'r argyfwng

- Condemnio camdriniaeth ddiweddar Llywodraeth y DU ag economi'r DU a'r Brexit caled trychinebus, a galw ar y Prif Weinidog a'i Ganghellor i ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus yn briodol, gan gynnwys Cynghorau

· Cefnogi’r egwyddor mai’r rhai sydd yn fwyaf abl i dalu - boed y rheiny'n unigolion neu'n gorfforaethau - a ddylai ysgwyddo'r baich mwyaf wrth ymateb i'r Argyfwng Costau Byw a chydbwyso cyllid y cenhedloedd.

· Gofyn i'r Cabinet roi diweddariad rheolaidd i'r Cyngor ynghylch effaith yr argyfwng Costau Byw ar y gallu i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ac ar ein gwaith i helpu'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed yn ein Dinas.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Moultrie

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar y Cynnig diwygiedig.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Thomson i ymateb i'r ddadl.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig Sylweddol.

DERBYNIWYD y Bleidlais ar y Cynnig Sylweddol.

## 33 : HYSBYSIAD O GYNNIG - 2

Nododd yr Arglwydd Faer fod Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn i'w ystyried. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Lewis a'r eiliwr oedd y Cynghorydd Jackie Jones.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Lewis i gyflwyno'r cynnig, fel a ganlyn:

> *Ers dyfodiad yr SS Empire Windrush yn Nociau Tilbury ar 22 Mehefin 1948, y bobl hynny y cyfeirir atynt yn annwyl bellach fel Cenhedlaeth Windrush yw'r rhai a atebodd alwad y DU i helpu i adeiladu gwlad wedi'i rhwygo a'i blino gan ryfel.*
>
> *Ymgartrefodd llawer o Genhedlaeth Windrush yng Nghaerdydd, ac fe'u croesawyd yno, gan ddisgwyl y byddent aros yng Nghaerdydd am genedlaethau.*

*Er eu bod wedi ymgartrefu ers degawdau, mae llawer wedi dioddef effeithiau negyddol Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.*

*Mae'r Cyngor yn nodi cynnig y Cyng Ebrahim a basiwyd gan Gyngor Caerdydd ym mis Hydref 2018 yn galw ar Gabinet y Cyngor i archwilio'r ffordd orau i'r Cyngor roi cyngor, cymorth a chefnogaeth i'r unigolion hynny a'u teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn negyddol gan Deddf Mewnfudo 2014, a fyddai'n eu hannog i'w cyflwyno eu hunain fel bo modd i'r Cyngor eu helpu i sicrhau eu hawl i aros yn y DU a chaniatáu iddynt fyd yma yng Nghaerdydd, yn hyderus ynghylch eu statws mewnfudo.*

*Mae Cyngor Caerdydd yn cefnogi pasio Deddf Windrush yn San Steffan sydd:*

a. *Yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i leihau gwahaniaethau ar sail hil yng nghanlyniadau eu gwaith, fel yr amlygwyd yn*
b. *Archwiliad Gwahaniaethau ar sail Hil Llywodraeth y DU ac Adroddiad Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd.*
c. *Yn sefydlu cronfa cydlyniant cymunedol y Gymanwlad, a ddaw o gyllidebau sy'n bodoli eisoes, er mwyn datblygu prosiectau i breswylwyr y DU a'r Gymanwlad fynd i'r afael â gwahaniaethau ac ailadeiladu clymau cymdeithasol ac economaidd y cymunedau a niweidiwyd gan sgandal Windrush, fel y cymunedau hynny yng Nghaerdydd.*

*Gan fod Adroddiad Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd yn nodi 'dechrau ymdrechion ein dinas i roi terfyn am byth ar anghyfiawnder hiliol hirdymor' ac yn darparu map ffordd i weithredu'r nod o 'greu prifddinas sy'n fwy cyfartal ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol ac o fewn ein cymunedau' (ymhlith eraill), yn unol â pholisi Cenedl Wrth-hiliol erbyn 2030 Llywodraeth Cymru:*

*Mae'r Cyngor yn PENDERFYNU:*

*Cefnogi pasio Deddf Windrush y DU sy'n cefnogi preswylwyr Caerdydd.*

*Penodi Aelod Arweiniol Windrush ar y Cyngor a fydd yn:*

a. *Eiriol dros deuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan Windrush a'r ddeddfwriaeth gyfredol.*

b. *Cyswllt cyntaf i ddioddefwyr sgandal Windrush yng Nghaerdydd, a'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn negyddol gan Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.*

c. *Hyrwyddo a chefnogi rhwydwaith o sefydliadau'r sector cyfreithiol, cymdeithasol a gwirfoddol i ddarparu gwasanaeth effeithiol i breswylwyr Caerdydd yr effeithiwyd arnynt yn negyddol gan Sgandal Windrush a'r Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau.*

*Codi ein hymwybyddiaeth ynghylch effaith y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 newydd ar gymunedau.*

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Jackie Jones

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl ar y Cynnig diwygiedig.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Lewis i ymateb i'r ddadl.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig.

CARIWYD y Bleidlais ar y Cynnig

34 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Cyng Driscoll i'r Cyng De'Ath*
Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad ynghylch cyllid ar gyfer rhagor o fysus trydan. A fydd y bysus trydan hyn yn defnyddio'r orsaf fysus newydd a'r Gyfnewidfa arfaethedig yng Ngorsaf Waungron, ac a fydd gan y safleoedd hyn derfynellau gwefru ar-safle; os ddim, ymhle fydd y bysus trydan yn cael eu gwefru?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Mae hyn yn newyddion gwych i'r ddinas, ac rydym yn gobeithio y bydd yr arian hwn yn prynu rhwng 40 a 50 o fysus, os bydd chwyddiant yn caniatáu. Nid ydym wedi dosbarthu'r grantiau eto felly nid ydym yn gwybod yn union pa gwmnïau fydd yn cael y bysus. Byddwn yn amau'n gryf y byddwn yn defnyddio'r ddwy orsaf yr ydych wedi sôn amdanynt. Mae'n cymryd 8 awr i wefru bws trydan arferol, ond ar ôl iddo gael ei wefru gall deithio 160 o filltiroedd; felly ni fydd angen unrhyw wefru ychwanegol mewn gorsafoedd fel rydych chi'n ei awgrymu. Y depo yw'r lle mwyaf priodol i wefru bysus, yn hytrach na mewn mannau o amgylch y ddinas.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Driscoll*
Allwch chi gadarnhau faint o'r cyfraniad tuag at y bysus a ddaeth oddi wrth Lywodraeth y DU; os ceir toriad pŵer, sy'n rhywbeth a allai ddigwydd yn y dyfodol yn ôl y sôn, a oes cynlluniau wrth gefn i wefru'r bysus trydan, ac a fydd hynny'n golygu defnyddio generaduron sy'n rhedeg ar diesel?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Rydym wedi derbyn £8 miliwn, ac mae'r arian wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. Unwaith eto, nid ydym yn gwybod yn union pa gwmnïau fydd yn derbyn yr arian hwn ar gyfer bysus trydan, felly ni allaf wneud sylwadau ynghylch unrhyw gynlluniau wrth gefn neilltuol a fydd ganddynt, ond mae'r dull o bweru'r bysus yn rhywbeth yr ydym yn rhoi llawer o sylw iddo; rydym ar hyn o bryd yn ymgysylltu â gweithredwyr i wybod beth yw ffynhonnell eu trydan, oherwydd rydym yn amlwg am iddynt ddefnyddio'r dulliau mwyaf cynaliadwy sydd ar gael.

*Cyng Molik i'r Cyng Wild*
A ddylai un noson o law arwain at lifogydd sylweddol a chau ffyrdd mewn prifddinas fel Caerdydd?

*Ymateb – Cyng Wild*

Buom yn trafod hyn yn y siambr y tro diwethaf; mae effeithiau'r newid hinsawdd yn teimlo'n real iawn mewn dinasoedd fel Caerdydd. Mae llifogydd fflach yn eithafol iawn ac yn aml ni all ein draeniau ymdopi â chyflymder y glawiad, sydd wedyn yn achosi i byllau gronni, ac mae hynny'n cael ei waethygu yn yr hydref pan fydd llawer o ddail ar y ddaear. Er na allwn reoli'r tywydd, na allwn reoli ymhle y bydd y glaw'n disgyn, rydym yn gweithio'n galed i weithredu mesurau lliniarol ar y draeniau. Byddwch wedi gweld cynlluniau draenio cynaliadwy amrywiol o amgylch canol y ddinas; maent wedi'u cynnwys mewn datblygiadau newydd, rydych chi wedi'u gweld ar Stryd Wood, Plas Cathays, llefydd fel Treganna. Felly rydym yn gwneud yr hyn y gallwn ni o ran draenio cynaliadwy, ond y gwir yw bod llifogydd fflach yn achosi aflonyddwch/

*Cwestiwn Atodol – Cyng Molik*
Mae preswylwyr yn wardiau Cyncoed a Lakeside yn sicr yn ymfalchïo yn eu hardal, ac yn chwarae eu rhan, a byddent yn bendant o blaid casglu'r dail. Fodd bynnag, rwy'n pryderu a yw'n ddiogel i breswylwyr wneud hynny. Fy nghwestiwn atodol yw, a ydym yn gofyn i breswylwyr glirio ffosydd draenio, a pha mor aml y caiff draeniau eu harchwilio drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig fel y sonioch yn ystod y tymor pan fydd y coed yn colli eu dail?

*Ymateb – Cyng Wild*
O ran casglu dail, rwyf wedi cymryd rhan mewn cynlluniau yn fy ward ers 7 mlynedd, lle mae'r preswylwyr wedi mynd allan i ysgubo dail. Nid wyf erioed wedi bod yn ymwybodol o unrhyw broblemau diogelwch drwy gydol y cyfnod hwnnw, ac maen nhw wrthi'n sgubo bob penwythnos drwy gydol yr hydref. O ran clirio dail, nid wyf yn meddwl bod hynny'n rhywbeth newydd; mae pobl wedi ysgubo o amgylch eu draeniau ers blynyddoedd, ac mae'n waith cymunedol da. Ac os bydd modd i bobl wneud hynny, bydd o gymorth mawr iddynt; Does dim ots gen i am y cyhoeddusrwydd a'r wleidyddiaeth yn gysylltiedig â hynny os bydd yn cadw llifogydd allan o gartrefi pobl. Ond y syniad y gall ein gwasanaethau gyrraedd pob draen pan fydd y dail yn disgyn ar un noson yng Nghaerdydd gyfan - nid yw'n mynd i ddigwydd - nid yw'n realistig disgwyl hynny. Felly'n bendant, os gall pobl helpu i ddadorchuddio draeniau rwy'n eu hannog i wneud hynny, a tybed a allwch chi hefyd eu hannog, gan nad ydw i am weld tai pobl dan lifogydd.

*Cyng Ali i'r Cyng Thomas*
A all yr Arweinydd wneud datganiad ar y sail resymegol dros brydlesu darn o dir ym Mharc Hailey i Ddŵr Cymru?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Rwy'n ymwybodol eich bod chi a'r Cynghorydd Burke-Davies wedi bod yn gweithio'n galed i gynrychioli'r pryderon sydd gan rai o'ch preswylwyr ynghylch y mater hwn. Gwn eich bod hefyd yn ymwybodol bod cais am adolygiad barnwrol wedi'i gyflwyno'n gysylltiedig â'r cais cynllunio ar gyfer y datblygiad hwn, felly'n naturiol ni fyddaf yn gwneud unrhyw sylwadau ar y materion hynny. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei bod yn iawn egluro bod Dŵr Cymru Welsh Water wedi cyflwyno hysbysiad statudol i'r Cyngor ei fod yn bwriadu gwneud gwaith hanfodol i osod pibellau gan gynnwys gorsaf bwmpio ym Mharc Hailey, ac bod angen mynediad arno i gynnal arolygon tir. Mae cyfleusterau fel hyn yn gyffredin ac, yn wir, mae amryw o barciau yng Nghaerdydd eisoes yn cynnwys cyfleusterau o'r fath. Deallaf y bydd y cynnig neilltuol hwn yn cryfhau cydnerthedd y system garthffosiaeth yn yr ardal, ac yn arbennig y

bydd yn lliniaru'r risg y bydd carthion yn gorlifo i'r amgylchedd. Mae gan Ddŵr Cymru bwerau statudol i wneud gwaith gosod pibellau a gwaith cysylltiedig ar dir trydydd parti, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991. Fodd bynnag, mae adrannau perthnasol y Cyngor wedi bod yn cynnal trafodaethau â Dŵr Cymru i geisio lliniaru effaith y gwaith ar breswylwyr lleol a defnyddwyr Parc Hailey. Er nad yw'n ofynnol i Ddŵr Cymru negodi prydles er mwyn arfer ei bŵer mynediad statudol a chwblhau'r gwaith, gallai ffurfioli'r feddiannaeth statudol drwy brydles ganiatáu mwy o fewnbwn gan y Cyngor ynghylch agweddau fel mynediad parhaus i'r gwaith, a'r effaith ar dir y Cyngor sy'n ffinio, neu'n gyfagos â'r safle. I ailadrodd ac egluro, nid oes angen prydles ar Ddŵr Cymru i gael mynediad i'r tir dan sylw er mwyn gwneud y gwaith cynlluniedig, ond mae'r Cyngor o'r farn y byddai prydles o'r fath yn fodd inni liniaru'r effaith ar ardal ehangach y parc. Gallaf gadarnhau na fyddwn yn cwblhau cytundeb o'r fath nes bo'r adolygiad barnwrol wedi'i setlo.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Ali*
Allwch chi gadarnhau sefyllfa'r cynghorwyr ward lleol yn ystod yr achos cyfreithiol.

*Ymateb – Cyng Thomas*
Rwy'n meddwl ei bod hi'n well imi wneud hynny mewn ysgrifen drwy'r Swyddog Monitro, er mwyn bod yn gwbl glir ynghylch yr hyn y gallwch ei ddweud a'i wneud am y mater.

*Cyng Robson i'r Cyng Burke-Davies*
Mae timau pêl-droed ar lawr gwlad yng Nghaerdydd, a swyddogion gemau cofrestredig FA De Cymru, yn parhau i fynegi pryderon ynghylch safon cynnal a chadw caeau, gan gynnwys diffyg marciau o ansawdd da ar gaeau a diffygion ar gaeau sy'n peryglu diogelwch cyfranogwyr mewn lleoliadau amrywiol. Mae rhai parciau yn colli cae dros dro. A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno bod hon yn broblem ddifrifol a pharhaus yng Nghaerdydd?

*Ymateb – Cyng Burke-Davies*
Rwy'n anghytuno â'ch asesiad o'r sefyllfa. Mae'r gwasanaeth y mae'r Cyngor yn parhau i'w ddarparu yn ddewisol, ac mae cynnal a chadw'r stoc o gaeau yn gryn waith. Er gwaethaf hynny, rydym yn ymdrechu i ddarparu'r arwynebeddau chwaraeon gorau posib o fewn amlen y gyllideb. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chynghreiriau a chyrff llywodraethu lleol, ac mae ganddo fecanweithiau cysylltu ar waith lle gellir codi materion o'r fath. Ac ystyried heriau ariannol cyfredol y Cyngor, a'r heriau o'i flaen yn y dyfodol, mae gwaith partneriaeth yn datblygu'n fwyfwy pwysig, ac mae'r Cyngor dros amser wedi gweithio gyda chlybiau i gyflawni gwelliannau i gaeau a chyfleusterau drwy brosesau trosglwyddo asedau a dyfarnu grantiau. Rwy'n awgrymu y dylai unrhyw glybiau penodol a chanddynt broblemau roi gwybod i'r Cyngor am hynny. Byddem yn hapus i barhau i weithio mewn partneriaeth, ac os byddant yn cyflwyno'r adroddiadau hynny inni bydd ein drws yn agored iddynt.

*Cyng Hopkins i'r Cyng Merry*
Mae data ar ganrannau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a amlinellwyd yn Adroddiad Llesiant Blynyddol 2021/2022 yn dangos nad yw presenoldeb eto wedi dychwelyd i'r lefelau a gofnodwyd cyn y pandemig. Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion i ymgymryd â'r her hon?

*Ymateb – Cyng Merry*
Y llynedd effeithiodd Covid ar bresenoldeb mewn ysgolion am amrywiaeth o resymau. Er enghraifft, canfu adolygiadau presenoldeb a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Lles Addysg fod pryder yn rhwystr sylweddol i bresenoldeb. Arweiniodd cyfres o gyfyngiadau clo yn ystod y pandemig at gynnydd mewn problemau gorbryder ac iechyd meddwl a fodolai eisoes, a hefyd at ymwreiddio agweddau at bresenoldeb gwael yn ddyfnach wrth i agwedd fwy di-hid at bresenoldeb ddod i'r amlwg ymhlith teuluoedd. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i gynnal adolygiadau absenoldeb parhaus ym mhob ysgol er mwyn nodi a blaenoriaethu'r disgyblion hynny sydd â phresenoldeb gwael o dan 50% neu sydd wedi methu dychwelyd i'r ysgol. Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig am ddiffyg Presenoldeb yn yr ysgol hefyd wedi cael eu hailsefydlu ers dechrau tymor yr hydref. Rydym wedi defnyddio adnoddau Swyddog Llesiant Addysg ychwanegol hyd fis Mawrth 2023 drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ac wedi datblygu briff ymgyrch gyfathrebu, mewn ymgynghoriad â phenaethiaid, sy'n pwysleisio ac yn cryfhau'r neges ynghylch pwysigrwydd presenoldeb da yn yr ysgol. Bydd yr holl waith hwn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach wrth i Lywodraeth Cymru ailsefydlu ffurflenni presenoldeb statudol eleni.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Hopkins*
Rwy'n meddwl y gall pob un ohonom gofio, yn ystod cyfnod gwaethaf y pandemig, fod pryderon wedi'u mynegi ym mhob rhan o'r siambr ynghylch effaith y pandemig ar ein dysgwyr mwyaf agored i niwed. Data presenoldeb cyffredinol yw'r data presenoldeb yn yr Adroddiad Llesiant Blynyddol, ond mae'n debygol iawn bod presenoldeb ein grwpiau mwy agored i niwed yn fwy o destun pryder eto. Gallwch weld hynny i ryw raddau yn y ffigurau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb Plant sy'n Derbyn Gofal mewn ysgolion uwchradd. Allwch chi gadarnhau bod yr elfen hon o'r data hefyd yn cael sylw arbennig, ac y rhoddir blaenoriaeth uchel i hynny mewn trafodaethau ag arweinwyr ysgol?

*Ymateb – Cyng Merry*
Rwy'n siŵr y byddwch yn deall y bydd diffyg presenoldeb yn unigryw iawn i ddisgyblion, ond y bydd hefyd yn dilyn tueddiadau a phatrymau, a byddwn yn archwilio'r naill agwedd a'r llall gyda'r ysgolion. Y nod yw cael cynlluniau wedi'u personoli, ond i barhau i godi'r data sy'n cynnwys yr holl ddisgyblion.

*Cyng Lewis i'r Cyng Lister*
A all yr Aelod Cabinet esbonio pa waith sy'n cael ei wneud i recriwtio a chadw staff yn y Gwasanaethau Plant?

*Ymateb – Cyng Lister*
Mae gennym strategaeth ar gyfer y gweithlu Gwasanaethau Plant sy'n anelu i gefnogi trefniadau i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol. Mae'n seiliedig ar waith cymdeithasol darbodus, felly rydym yn gwneud yn siŵr mai ond gweithwyr cymdeithasol sy'n gwneud yr hyn y dylai gweithwyr cymdeithasol fod yn ei wneud, ac yn troi at swyddi eraill i roi cymaint o gefnogaeth iddynt ag sy'n bosibl. Yn ogystal â hynny rydym hefyd yn defnyddio taliadau atodol ar sail y farchnad, ac mae gennym ystod o fentrau fel Wythnos Datblygu Ymarfer sy'n cael ei chynnal yr wythnos hon i gefnogi dysgu a datblygu ar

draws y maes gwasanaeth. Rydym hefyd yn defnyddio arweinwyr ymarfer i gefnogi'r datblygiad hwnnw drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi ail-lansio'r cylchlythyr i sicrhau ein bod yn dathlu newyddion da drwy'r holl Wasanaethau Plant, ac rydym yn gweithio gyda phrifysgolion i wneud cymaint ag y gallwn i ddenu myfyrwyr gwaith cymdeithasol, fel y gallwn eu denu i Gaerdydd i wneud eu hyfforddiant, lle maen nhw'n fwy tebygol o aros ar ôl hynny.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Lewis*
Fel y gwyddom, mae staff gofal cymdeithasol o dan bwysau aruthrol, wrth i'r galw gynyddu a'r cyfryngau graffu'n fwy ar eu gwaith. Beth all y Cyngor ei wneud i'w cefnogi?

*Ymateb – Cyng Lister*
Diolch ichi am dynnu sylw at y pwysau enfawr sydd ar y staff. Fel y soniais yn gynharach yn ystod y drafodaeth ar Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, mae’r staff o dan bwysau aruthrol ond er hynny'n gwneud pethau gwych, ac rwy’n meddwl mai un peth y gallwn ni i gyd ei wneud, fel gwleidyddion ac aelodau o'r siambr hon, yw dathlu'r gwaith hwnnw - dathlu'r pethau da sy'n cael eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd lle bo modd, lle bo hynny'n ddiogel, a rhannu'r gwaith da hwnnw drwy weiddi ar dop ein llais. Rwy’n gwneud yn siŵr fy mod yn gwneud hynny bob mis yn fy natganiadau, a byddwn yn gwerthfawrogi pe bai modd i'r aelodau fy helpu i yn hynny o beth, a rhannu arfer da a newyddion da ar bob cyfle.

*Cyng Driscoll i'r Cyng Goodway*
Beth oedd y biliau blynyddol ar gyfer cyfleustodau yn Neuadd y Sir a Thŷ Wilcox yn y ddwy flynedd cyn y cyfnod clo, a sut mae'r rhain yn cymharu â'r blynyddoedd yn ystod y cyfnodau clo?

*Ymateb – Cyng Thomas ar ran y Cyng Goodway*
Cyn y pandemig, costau nwy, trydan a dŵr ar gyfer Neuadd y Sir yn 2018/19 oedd £455k ac yn 2019/20 oedd £510k. Cafwyd gostyngiad sylweddol yn y defnydd o Neuadd y Sir gan staff drwy gydol y pandemig; fodd bynnag, oherwydd gofynion awyru a chyfyngiadau ar y gallu i wresogi a goleuo parthau penodol, ni chafwyd rhyw lawer o arbedion yn Neuadd y Sir yn ystod y pandemig. Gwelir hyn yn 2020/21, lle'r oedd y costau'n £454k. Yn 2021/22, gwelwyd cynnydd yn nefnydd y staff o Neuadd y Sir wrth i'r cyfyngiadau lacio; fodd bynnag, mae costau cynyddol cyfleustodau wedi golygu bod costau wedi dychwelyd i fod yn agos at y lefel a gafwyd cyn y pandemig, gyda chyfleustodau ar gyfer 2021/22 yn costio £484k. Cyn y pandemig costau nwy, trydan a dŵr ar gyfer Tŷ Wilcox yn 2018/19 oedd £125k a £137k yn 2019/20. Cafodd yr adeilad swyddfa ei wagio i raddau helaeth yn 2020/21 oherwydd y pandemig, a dim ond y Ganolfan Derbyn Larymau a oedd yn gweithredu oddi yno. Costau'r cyfleustodau ar gyfer 2020/21 oedd £150k ac ar gyfer 2021/22 oedd £111k. Gostyngodd defnydd o ddŵr a thaliadau am ddŵr ar draws y ddau safle yn ystod y pandemig, ac nid ydynt wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Driscoll*
Roeddwn i am fynegi'r pwynt fod llawer o'n staff yn gweithio gartref, a'r pryder yw fod rhywun yn mynd i fod yn talu eu biliau, a'u bod yn trosglwyddo'r trydan y byddent wedi'i ddefnyddio i'w cartref. [DVX31] Roeddwn i eisiau bod yn sicr - rwy'n gwybod eu

bod yn derbyn rhywfaint o iawndal gan y llywodraeth am weithio gartref - ond roeddwn i am weld a ydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r gweithwyr hyn gyda'u biliau ynni tra bônt yn gweithio gartref.

*Ymateb - Cyng Thomas*
Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â chydweithwyr yn yr undebau llafur ar faterion fel hyn, a rhan ganolog i hynny fydd bargen i sicrhau cyflog teg, ac yn ôl yr holl arwyddion gan y ddau brif undeb llafur rydym yn symud i'r cyfeiriad hwnnw ar draws setliad cyflog wedi'i negodi'n genedlaethol. Yn amlwg gellir hawlio ad-daliad treth drwy CaThEM, ac wrth gwrs rwy'n annog ein holl staff sy'n gymwys i hawlio'r arian hwnnw. Wrth gwrs, ceir manteision ac arbedion yn sgil gweithio gartref, nid costau yn unig, er enghraifft cost cymudo, ac arbedion weithiau'n gysylltiedig â gofal plant. Rwy'n meddwl bod angen dod i ryw gydbwysedd, ac rydym yn ymgysylltu'n agos iawn â´r undebau llafur er mwyn parhau i fonitro'r sefyllfa.

*Cynghorydd Molik i'r Cynghorydd De'Ath*
A yw ein bysus wedi'u gwahardd o ganol y ddinas?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Diolch Gynghorydd. Yr wythnos hon, daliais fws fy hun o ganol y ddinas, ac rwy'n meddwl bod y Cyng Bradbury wedi dal bws bron bob dydd dros y mis diwethaf - mae'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rheolaidd iawn - felly rhaid imi ddweud ei bod hi'n amlwg nad yw hynny'n wir.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Molik*
Deugain munud ar ddydd Sadwrn i fws fynd o Heol Albany i gyfeiriad y dref, pobl yn cael eu gollwng ar Heol Richmond gan nad oedd y bws yn gallu mynd ar Heol Casnewydd. [DVX32] Er gwaethaf yr oedi hwn, bydd y gostyngiad mewn gwasanaethau bws i ganol y ddinas yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr â chanol ein dinas, ac felly ein busnesau. Ydych chi'n meddwl bod angen gwrth-droi rhai o'r penderfyniadau a wnaed ynghylch y seilwaith trafnidiaeth yng nghanol ein dinas, hy, cael gwared â lonydd bysus gan orfodi bysus i fod yn gymysg â gyrwyr cerbydau eraill.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Ydw i'n meddwl y dylem gael gwared â'r lonydd bysus, gwneud pethau'n haws i fysus? Na, nac ydw. Mae'n amlwg bod llawer o waith ar y gweill ar hyn o bryd yng nghanol y ddinas. Mae seilwaith gwerth £25m yn cael ei osod, ac fel y dywedais yn fy natganiad, mae llwyth o newidiadau'n cael eu cyflwyno a fydd yn ei gwneud hi'n haws, ar ôl eu cwblhau, i fysus deithio o amgylch canol ein dinas, ynghyd â'n gorsaf fysus ragorol newydd. Felly mae pethau'n mynd i'r cyfeiriad iawn; bydd y profiad o ddefnyddio bws yng Nghaerdydd yn gwella o hyd.

*Cyng Owen Jones i'r Cyng Lister*
Pa gymorth y mae'r Cyngor yn ei roi i rieni newydd ledled Caerdydd?

*Ymateb – Cyng Lister*
Rwy'n meddwl bod angen ichi ddatgan buddiant yn y cwestiwn hwn. Gall pob rhiant sy'n disgwyl babi yng Nghaerdydd fanteisio ar nifer o raglenni cymorth gan Rhianta Caerdydd. Mae'r rhaglenni sydd ar gael yn amrywio rhwng GoBrain a GoBrain Toddler, sy'n cefnogi datblygiad emosiynol a phrofiadau rhieni a'r babi rhwng 0 a 3

oed; ceir hefyd brosiect Mellow Dads-to-be sy'n rhoi cymorth i ddarpar dadau yn nhermau'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhiant, sut mae babis yn cyfathrebu a'r rôl y mae'n rhaid i dadau ei chyflawni i sicrhau bod gan blant enghreifftiau cadarnhaol yn eu bywydau. Mae gennym hefyd y rhaglen Cylch Diogelwch, sef rhaglen sy'n seiliedig ar berthynas a ddechreuwyd yn ddiweddar. Mae'r rhaglen yn 8 wythnos o hyd ac wedi'i hanelu at rieni plant 4 mis oed i 8 mlwydd oed. Ei nod yw sicrhau y gall y rhieni ddatblygu dealltwriaeth o'u perthynas â'u plentyn.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Jones*
Mae peth o'r wybodaeth yna'n newydd i mi, felly mae'n debyg y dylem fod yn ei hysbysebu'n ehangach, oherwydd mae gen i ddiddordeb. Yn fy sefyllfa i, ac efallai fod hyn ychydig y tu hwnt i'ch portffolio, byddai coffi am ddim o amgylch y ddinas yn siŵr o fod yn boblogaidd ymhlith rhieni newydd, ond diolch.

*Ymateb – Cyng Lister*
Yn bendant. Estynnais wahoddiad yn ddiweddar i’r Arweinydd ddod i weld rhai o’r rhaglenni rhianta yr ydym yn eu cynnig, dim ond i wneud yn siŵr ein bod yn siarad amdanynt cymaint ag sy'n bosib, ac i wneud yn siŵr eu bod yn cyd-fynd cymaint â phosib â'r cynlluniau i ehangu Dechrau’n Deg, ac ond i wneud yn siŵr bod rhieni ar draws y ddinas yn gwybod pa gymorth sydd ar gael iddynt. Rwy'n gobeithio bod eich mab bach yn dod yn ei flaen yn dda hefyd.

*Cyng McEvoy i'r Cyng De'Ath*
A allai'r aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am bolisi beicio Cyngor Caerdydd?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Rwy'n falch iawn eich bod wedi gofyn cwestiwn imi ynghylch beicio, ac rwy'n gobeithio y gallaf drafod hynny â chi mewn modd cadarnhaol. I bob pwrpas, mae ein polisi ynghylch beicio wedi'i nodi yn y Papur Gwyn, sef darparu rhwydwaith integredig o lonydd beicio. Rydym hefyd yn gwneud llwyth o bethau'n gysylltiedig ag ysgolion, a'r math yna o beth, a byddaf yn darllen rhestr o'r rheiny wrth ateb fy nghwestiwn nesaf.

*Cwestiwn Atodol – Cyng McEvoy*
Mae fy nghwestiwn yn eithaf penodol, ac mae'n un agwedd ar bolisi sy'n peri pryder mawr i mi. Roeddem yn siarad am blant yn gynharach, mae fy mab yn 3 ac wrth ei fodd yn cerdded. Yn amlwg rydym yn ceisio'i gadw mor agos ag sy'n bosibl atom ni wrth inni gyd-gerdded; ond rwy'n wirioneddol bryderus wrth gerdded yn y dref, yn ofnus hyd yn oed. Mae fy machgen yn 3, mae yna bobl oedrannus yn cerdded, ac mae yna feiciau'n teithio ar 20mya i lawr Stryd y Frenhines, i lawr Stryd y Santes Fair, i lawr y Stryd Fawr, ac mae gen i wirioneddol ofn y bydd rhywun yn. Dylwn i fod wedi dweud ar y dechrau - a wnewch chi ymrwymo i wneud rhywbeth yn ei gylch, os gwelwch yn dda.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Â bod yn deg, rydych chi'n gwneud pwynt teg Neil. Tybed a ydych chi'n dilyn Heddlu De Cymru ar Twitter. Dros y pum niwrnod diwethaf maen nhw wedi mynd ati i lansio cyfres o batrolau, er mwyn ceisio myd i'r afael â'r union fath o ymddygiad eithriadol o wrthgymdeithasol rydych chi'n cyfeirio ato, felly rwyf yn bendant yn cefnogi unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w helpu yn hynny o beth.

*Cyng Lancaster i'r Cyng De'Ath*
Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i hyrwyddo cerdded yn ôl ac ymlaen i ysgolion?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Mae Tîm Teithio Llesol y Cyngor yn cynorthwyo holl ysgolion Caerdydd i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Teithio Llesol Ysgolion. Mae hyn yn cynnwys:

- Cymorth i hyrwyddo teithio llesol drwy'r cwricwlwm ysgol.
- Mentrau cerdded ir ysgol, gan gynnwys cynllun Tracio WoW Living Streets.
- Darparu cysgodfeydd i feiciau a mannau parcio sgwteri.
- Darparu fflydoedd o feiciau pwrpasol er mwyn rhoi hyfforddiant beicio a darparu gweithgareddau'n seiliedig ar y cwricwlwm, drwy fenter Fflyd Beiciau Ysgolion Caerdydd - mae 105 o ysgolion a lleoliadau addysg eraill wedi manteisio ar y Fflyd Beiciau hyd yma.
- Ein rhaglen flynyddol o hyfforddiant beicio a hyfforddiant cerdded a gyflwynir gan dîm Addysg Diogelwch Ffyrdd yr ysgol.
- Cyflwyno'r rhaglen Strydoedd Ysgol gyda chynlluniau bellach ar waith ar gyfer 16 o ysgolion.
- Gwella amgylchedd y priffyrdd yng nghyffiniau ysgolion er mwyn gwneud teithiau llesol i'r ysgol yn rhwyddach ac yn fwy diogel - mae hyn yn cynnwys cyflwyno cyfyngiadau parcio ychwanegol a defnyddio camerâu TCC i orfodi marciau Ysgol Cadwch yn Glir ac igam ogam wrth groesfannau sebra.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Lancaster*
Fel llywodraethwr Ysgol Uwchradd Llanisien, rydym am annog disgyblion i gerdded os yn bosibl, gan ddefnyddio'r Llwybrau Cerdded Diogel a bennwyd gan y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw fy nghyd-lywodraethwyr na'r athrawon wedi gallu canfod y llwybrau diogel hyn. Rwyf wedi holi'r Cyngor a heb gael unrhyw lwc. A wnaiff yr Aelod Cabinet ymrwymo i gyhoeddi'r holl lwybrau cerdded diogel i holl ysgolion Caerdydd, mewn modd sy'n hygyrch i ddisgyblion a rhieni?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Byddaf yn bendant yn ymchwilio i hyn ac yn ystyried sut y gallwn ymgysylltu i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

*Cyng Berman i'r Cyng Burke-Davies*
Yn eich barn chi, faint o ymgynghori sy'n ddigonol â phreswylwyr lleol cyn cyflwyno cynllun cloi parc lle bydd grŵp gwirfoddol o breswylwyr lleol yn dod yn gyfrifol am gloi a datgloi parc, yn enwedig lle gallai hynny olygu bod llwybr sefydledig i gerddwyr drwy'r parciau yn cael ei golli ar adegau penodol o'r dydd?

*Ymateb* – Cyng Burke-Davies
Nid wyf yn credu ein bod yn defnyddio model penodol. Mae'n dibynnu'n fras ar yr union amgylchiadau. Rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn gohebu'n ddiweddar â swyddogion ynghylch Scholars Way yn eich Ward mewn perthynas â hyn, ac nid yw'n anghyffredin treialu trefniant o'r fath i ddechrau wedyn seilio ymgynghoriad ar ganlyniadau'r treial hwnnw. Pwrpas y treial ei hun yw profi'r trefniadau, ac mae'r treial wedi cynhyrchu ymatebion o fewn y gymuned leol. Mae llawer o dreialon wedi cael eu cynnal yn eich ward, yn dyddio'n ôl i 2010, ac mae trefniadau fe hyn wedi bod ar

waith mewn wardiau eraill sydd wedi arwain at drefn gloi barhaol, neu at barhau â'r drefn o beidio cloi,  ond unwaith eto bydd hynny'n dibynnu ar ganlyniad treial ar ôl ei gyflwyno. Fy nisgwyliad yw y byddai'r trefniadau ar gyfer unrhyw drefn treialu cloi yn cael eu hesbonio drwy arwyddion wrth y mynedfeydd cyn dechrau'r treial, a dyna a ddigwyddodd yn yr achos hwn. Ar ôl y treial sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddwn yn cysylltu â chi â'ch cyd-aelodau o fewn y ward i roi gwybod y canlyniad, a gallwn ddefnyddio hynny fel man cychwyn.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Berman*
Mae gen i ddiddordeb mawr yn hyn, Gynghorydd Burke Davies. Tybed a allech daro golwg ar y broses, oherwydd rwy'n teimlo bod elfen o ymgynghori ar goll ar hyn o bryd, yn yr ystyr na chafodd preswylwyr wybod am y cynllun cyn ei dreialu, ni chafwyd unrhyw ymgynghori â'r preswylwyr yn yr ardal ehangach i ganfod a fyddent yn hapus i fwrw ymlaen â hyn, nid oedd unrhyw gynnig wedi'i gyflwyno ger ein bron fel cynghorwyr lleol cyn treialu'r cynllun hwnnw; rwyf wedi lobïo ar ran preswylydd a oedd am fwrw ymlaen â'r cynllun, ond roeddwn wedi tybio y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal i ddechrau. Felly a allech chi edrych ar y broses gyfan gan ei bod yn ei gwneud hi'n anodd i rai preswylwyr sydd bellach yn gweld bod yn rhaid cerdded ymhellach, ee, i gyrraedd safleoedd bws, i gyrraedd yr archfarchnad leol, ac rwy'n meddwl y byddai'n well ganddynt fod wedi cael dweud eu dweud cyn cyrraedd y gatiau a gweld eu bod wedi'u cloi'n ddirybudd, ac nad oeddent yn gallu mynd drwyddynt ar rai adegau. Felly, fel y dywedais, a allwn edrych eto ar yr holl broses, oherwydd rwy'n credu bod angen inni wneud llawer mwy o ymgynghori wrth fwrw ymlaen â chynigion fel hyn.

*Ymateb* – Cyng Burke-Davies
Rwy'n derbyn eich pwynt i raddau, ond yn teimlo y gallem gyrraedd sefyllfa lle'r ydym yn cynnal ymgynghoriad ar yr ymgynghoriad. Diben y broses hon yw creu sail i benderfynu beth fydd yn digwydd wedyn. Rwy'n meddwl y gallai'r cyfathrebu fod yn well - rwy'n cyfaddef hynny. Mae hynny'n wir ym mhob agwedd ar fywyd ar y cyfan. Dydyn ni ddim yn cyfathrebu'n arbennig o dda y dyddiau hyn oherwydd y byd digidol ac ati. Rwy'n meddwl y gallem gynnal sgyrsiau wyneb yn wyneb, a gallaf ymdrechu i gynnal y sgyrsiau hynny â chi yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhelir. Yn benodol, mae'r sefyllfa hon yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd wrth ymgynghori ar barciau eraill, er enghraifft cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth iawn ynghylch trefniadau cloi Gerddi Pleser y Rhath a Pharc Cefn Onn, a buom yn ymgysylltu a thrydydd parti, gan gynnal ymgynghoriad helaeth iawn, ac yn amlwg buom yn trafod canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Mae hyn yn wahanol i mi, oherwydd bydd canlyniadau'r broses ymgynghori hon ac esboniad o'r drefn yn cael eu cyflwyno i chi ac i aelodau o'r cyhoedd er mwyn penderfynu a ydym am fwrw ymlaen â hynny. Ond rwy'n derbyn eich pwynt ynghylch cyfathrebu'n well.

*Cyng Lay i'r Cyng Thorne*
A all yr aelod roi gwybod imi a yw'r Cynllun Adfywio Cymdogaeth Leol yn dal yn weithredol, ac a yw'r aelodau'n dal i allu gwneud cais iddo?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Rhaglen adfywio drwy'r ddinas a arweinir gan yr aelodau yw rhaglen y Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaeth. Mae'n darparu amrywiaeth eang o welliannau mewn cymunedau lleol. Rydym ar hyn o bryd ar flwyddyn olaf rhaglen 3 blynedd, ac mae

pum cynllun cytunedig yn cael eu darparu. Ceir swm bach o arian o fewn y rhaglen gyfalaf yn 2023/24 i lansio rhaglen newydd i gasglu syniadau am brosiectau a dylunio nifer fach o gynlluniau, a'n bwriad yw lansio cylch cystadleuol newydd y mis nesaf. Bydd syniadau a gyflwynir er ystyriaeth yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf y rhaglen a'r rhai sy'n sgorio uchaf yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r cyllid sydd ar gael. Bydd y meini prawf asesu yn canolbwyntio ar fanteision adfywio, yr effaith ar yr amgylchedd, ymglymiad y gymuned ac arian cyfatebol.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Lay*
A all yr aelod ddweud wrthym pryd y bydd yr holl aelodau'n cael gwybod am y lansiad?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Yn rhyfedd ddigon, roeddwn yn siarad â swyddogion am hyn yr wythnos yma, a bydd yr aelodau'n cael gwybod drwy e-bost yn fuan iawn, ac rwy'n gwybod bod swyddogion yn ystyried cynnal sesiwn galw heibio lle gall yr aelodau ddod i mewn a chael gwybodaeth am y cynlluniau, sut maent yn gweithio a sut y gallant wneud cynnig; ac rwyf wedi gofyn iddyn nhw wneud hynny'n hwyr ar ddydd Llun, o bosib, pan fydd y rhan fwyaf o grwpiau'n cynnal eu cyfarfodydd grŵp cyn y Cyngor, felly bydd llawer o gynghorwyr wrth law.

*Cyng Williams i'r Cyng De'Ath*
Mae'r Cyngor am weld o leiaf 50% o deithiau'n cael eu cwblhau drwy ddulliau 'cynaliadwy' fel bws. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd rhaid i fysus fod ar gael i'w defnyddio gan breswylwyr. Ym Mhentref Llaneirwg rydym wedi gweld llwybrau bysus yn cael eu torri, gyda gostyngiadau i lwybrau 30 a 45 Bws Caerdydd, gan gynnwys ar gyfnodau brig a chyda'r nos. O ganlyniad i hyn, nid yw bysus yn ddewis ymarferol i lawer o breswylwyr. Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i wella darpariaeth bysus i breswylwyr a sefydliadau ym Mhentref Llaneirwg a'r cyffiniau?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Fel y dywedais o'r blaen, rwy'n cydymdeimlo'n arw â phobl sy'n byw ar gyrion y ddinas o ran y gwasanaethau bws; mae angen iddynt fod yn well, yn rheolaidd ac ati. Ond rhaid imi ddweud wrthych, ac mae'n ddrwg gen i dorri'r newydd ichi fel cyfalafwr balch, ond dyma'r hyn sy'n digwydd pan fyddwch yn gadael pethau i fympwyon y farchnad. Y rheswm na allwn ymyrryd a rheoleiddio'r gwasanaeth bws yn y modd yr hoffem ei wneud yw Deddf Trafnidiaeth 1985 Margaret Thatcher. Rwy’n cael y cwestiwn hwn bob mis Joel, ac yn rhoi atebion tebyg iawn; Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio cyfres o ymyriadau, nad ydynt yn debyg o gwbl i ffordd Thatcher o wneud pethau.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Williams*
Duw a'n gwaredo - Margaret Thatcher sydd ar fai ie? Dyna pam nad oes bysus ym Mhentref Llaneirwg. Wel wir. Rydych chi'n gwybod beth yw fy nghwestiwn atodol: rydym yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Sant Edern, ac nid yw ein Canllawiau Cynllunio Atodol yn caniatáu inni gael digon o fannau parcio oddi ar y ffordd am ein bod yn dweud y bydd preswylwyr yn cael eu gorfodi i ddefnyddio'r bws, ond does dim bysus ar gael iddynt eu defnyddio. Nid oes dewis arall ganddynt felly ond bod yn berchen ar gar, ac mae hynny'n achosi parcio gwrthgymdeithasol. Felly gofynnaf y cwestiwn ichi eto: sut y gallwn ni gael Cynllun Datblygu Lleol sy'n priodoli

ymraniad moddol 50-50 pan nad oes bysus ar gael ar gyfer datblygiadau newydd, heb sôn am gymunedau sy'n bodoli eisoes.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Yn amlwg, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar fasnachfreinio. Rydym ni ein hunain yn cyhoeddi strategaeth bysus i'r dyfodol, felly rydym yn ceisio clirio'r llanast y mae'r bysus wedi bod ynddo am y deng mlynedd ar hugain diwethaf.

*Cyng Shimmin i'r Cyng Burke-Davies*
A all y weinyddiaeth egluro dyfodol perchnogaeth neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, ac a oes unrhyw gynlluniau i symud y naill neu'r llall o'r rhain oddi wrth y Cyngor?

*Ymateb* – Cyng Burke-Davies
Mae'n bwysig iawn sicrhau dyfodol cynaliadwy i neuadd Dewi Sant fel neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru, ac mae'n parhau i fod yn ymrwymiad i'r weinyddiaeth hon. Mae angen inni ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sylweddol a'r buddsoddiadau sydd eu hangen yn Neuadd Dewi Sant. Bydd unrhyw benderfyniad yn y dyfodol, fel y manylir yn ein datganiad polisi Cryfach, Gwyrddach, Tecach, yn sicrhau bod Neuadd Dewi Sant yn cadw ei statws fel awditoriwm o safon fyd-eang, a all barhau i chwarae rhan ganolog yn ecoleg gerddorol Caerdydd.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Shimmin*
A all y weinyddiaeth ymrwymo y funud hon i sicrhau bod yr holl grwpiau â buddiant, defnyddwyr a sefydliadau yn cael eu nodi'n briodol, ac yr ymgynghorir â nhw'n uniongyrchol ynghylch unrhyw fwriad i newid perchnogaeth neu reolaeth ar Neuadd Dewi Sant?

*Ymateb* – Cyng Burke-Davies
Rwy'n meddwl bod hwn yn gwestiwn cwbl deg. Dydw i ddim yn meddwl eich bod chi allan o le yn gofyn hyn o gwbl. Ac, er mwyn parhau i sicrhau bod y lleoliad hwn o safon fyd eang, rwy'n meddwl bod angen inni wneud hynny a bod yn rhaid inni wneud yr ymrwymiad hwnnw.

*Cyng Ebrahim i'r Cyng Thorne*
A all yr aelod Cabinet esbonio sut mae Cyngor Caerdydd yn cydweithio â sefydliadau partner i gael gwared ag unrhyw offer cyffuriau a geir o amgylch y ddinas?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Gwn eich bod yn cytuno â mi fod sbwriel cyffuriau yn destun pryder difrifol, ac yn peri braw ac aflonyddwch i'r cyhoedd. O safbwynt gweithredol, mae staff y Gwasanaeth Glanhau wedi'u hyfforddi i gasglu nodwyddau'n ddiogel. Maent yn ymateb yn gyflym i adroddiadau am sbwriel cyffuriau, yn mynd ati'n rhagweithiol i lanhau ardaloedd trafferthus ac i weithio'n agos gyda sefydliadau eraill sy'n cynnwys gwasanaeth cynnal a chadw, fel Caerdydd AM BYTH yng nghanol y ddinas a Llywodraeth Cymru yn Butetown. Yn strategol, mae atal a mynd i'r afael â'r achosion wrth wraidd y defnydd o gyffuriau mewn ardaloedd cyhoeddus yn ffordd well o ddatrys hyn yn y tymor hir. Bydd gan ddefnyddwyr cyffuriau yn aml gefndir trawmatig a dibyniaethau wedi'u hymwreiddio, ond gellir eu cefnogi drwy ein hymagwedd amlddisgyblaeth yng Nghaerdydd, sy'n cynnwys y Cyngor, Bwrdd Iechyd y Brifysgol, yr Heddlu a'r trydydd

sector. Bydd cynrychiolwyr o sefydliadau partner hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd drwy'r grŵp Byw ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth, sy'n sicrhau cydweithio ac ar hyn o bryd yn cefnogi gwaith allgymorth newydd gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr cyffuriau a'u hannog i fanteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Ebrahim*
A all yr aelod Cabinet esbonio sut mae'r bartneriaeth yn gweithio i gael gwared ag offer cyffuriau oddi ar dir cyhoeddus nad yw'n eiddo i Gyngor Caerdydd.

*Ymateb – Cyng Thorne*
Os byddwn yn rhannu manylion sbwriel cyffuriau ar dir y Cyngor neu dir preifat, bydd staff y Gwasanaeth Glanhau yn cael gwared â'r sbwriel ac yn hysbysu'r tirfeddiannwr i ddiogelu'r ardal neu gyflogi contractwr addas i gael gwared â'r eitemau os bydd hynny'n digwydd eto. Os cewch unrhyw achosion, mae croeso ichi gysylltu a gallwn sicrhau ein bod yn ymdrin â'r broblem.

*Cyng Williams i'r Cyng Wild*
Dywedwyd wrthyf yn ddiweddar, a gwelwyd yn y wasg, fod preswylwyr ym Mhentref Llaneirwg yn cwyno am fynydd o sbwriel heb ei gasglu a oedd wedi bod yn cronni y tu allan i'w tai am y saith wythnos diwethaf. Soniodd rhai pobl leol am "ddrewdod sy'n codi cyfog" a'r ffaith bod "llygod mawr enfawr" wedi cael eu gweld "wrth eu boddau" ymhlith y bagiau bin toredig a oedd wedi'u tipio'n anghyfreithlon. Dywedwyd bod y pentwr o wastraff wedi tyfu mor fawr fel ei fod yn peri rhwystr yr holl ffordd ar draws y pafin cyfagos ar Drawlings Close ym Mhentref Llaneirwg, gan orfodi'r rhai a oedd yn cerdded heibio gyda phramiau a chadeiriau olwyn i gerdded i'r ffordd i fynd o'i amgylch. Yn lle ymffrostio mewn prosiectau mawr, fel Arena Dan Do Caerdydd (wedi'i chyllido'n rhannol drwy fenthyca miliynau o bunnoedd). a yw'r Aelod Cabinet yn cytuno â mi y dylai'r Cyngor yn lle hynny ganolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys i breswylwyr bob dydd, fel sicrhau bod eu sbwriel yn cael ei gasglu'n aml ac ar amser?

*Ymateb – Cyng Wild*
Aelodau, nid oes dim yn fy ngwneud yn fwy blin, a phob un ohonom yn fwy blin, na phan fydd pobl yn gadael sbwriel yn eu cymunedau, bagiau o sbwriel a thipio anghyfreithlon, ac yn yr achos hwn o dipio anghyfreithlon, rwy'n credu i'r sbwriel gael ei gasglu o fewn 24 awr ar ôl rhoi gwybod amdano. Hoffwn atgoffa pawb pa mor bwysig yw rhoi gwybod am achosion fel hyn; gallwch wneud hynny ar yr ap, ac wedyn gall ein staff gweithgar fynd i'w symud ymaith. Rwyf wedi fy synnu braidd gan ail hanner eich cwestiwn, a'ch gwrthwynebiad i'r Arena. Rwy'n deall y gallai'r wythnos hon fod wedi bod yn anodd i'r aelod o ran ei deyrngarwch gwleidyddol, ond wyddwn i ddim ei fod bellach wedi ymuno â'r Glymblaid Gwrth-dwf. Ond o ddifrif, nid yw ond yn deg, mae gwleidyddiaeth yn ein drysu ni i gyd weithiau Gyng. Williams; ond tybed a wnewch gadarnhau, mae'n ymddangos eich bod bellach yn gwrthwynebu'r Arena, ai dyma yw safbwynt eich plaid? Ydych chi wedi bod yn sgwrsio ag arweinydd eich plaid sydd wedi cefnogi'r Arena yn frwd ers blynyddoedd, ac wedi cydweithio'n dda â ni ar hynny? [DVX33] Gyng Driscoll, tybed a yw wedi cadarnhau safbwynt eich plaid gyda chi, ac ystyried mai eich llefarydd dros ddiwylliant a'r celfyddydau yw'r Cyng Jayne Cowan, a chyllid. Felly Gyng Williams, tybed a wnewch gadarnhau inni i gyd, mae'n gyfnod anodd, ond a wnewch egluro'r sefyllfa?

*Cwestiwn Atodol – Cyng Williams*
Wel, bydd yn rhaid imi wrando ar farn fy ngrŵp ynghylch yr Arena. Fy ngrŵp newydd, o bosib. Ond â siarad yn blwmp ac yn blaen, dyma fy nghwestiwn atodol: mae'n drewi bod y wasg genedlaethol yn gorfod ymyrryd fel bod swm enfawr o wastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon y tu allan i gartrefi pobl yn cael ei gasglu yng Nghaerdydd. Fy nghwestiwn i'r Aelod Cabinet yw: a yw'n meddwl ei fod yn dderbyniol gadael sbwriel wedi'i dipio'n anghyfreithlon am 7 wythnos mewn ardal breswyl, a pheidio casglu'r sbwriel ond pan gaiff y wasg genedlaethol wybod am y mater? Dywedwyd wrthyf fod preswylwyr lleol wedi riportio'r sbwriel llawer cyn hynny, ond na wnaed unrhyw beth yn ei gylch.

*Ymateb – Cyng Wild*
Roedd y ffordd yr edrychodd yr aelod o amgylch ar aelodau ei grŵp yn siarad cyfrolau; nid oedd wedi gofyn am gael siarad â'i arweinydd am ei safbwynt ynghylch yr Arena. Rwyf wedi'i glywed yn siarad cyn heddiw am ei barch tuag at bawb yn y Siambr, ond y gwir yw nid wyf yn siŵr a oes ganddo barch tuag at ei grŵp ei hun. O ran y wasg genedlaethol, yr hyn y mae gennyf ddiddordeb ynddo Gynghorydd yw, a wnaethoch chi riportio hyn, neu a oedd gennych fwy o ddiddordeb yn Twitter a'r wasg genedlaethol; rydych chi wedi'ch cynhyrfu i'r fath raddau ynghylch y llanast yma. Tybed a wnaethoch chi riportio hyn ar yr un pryd, dyna'r hyn yr hoffwn i ei wybod. Mae angen inni ei riportio, ond nid wyf yn meddwl bod hyn yn dderbyniol o gwbl ar gyfer tipio anghyfreithlon,  y math hwn o wastraff. Mae ein staff yn gweithio'n wirioneddol galed i glirio'r llanast ar amser; byddwn yn parhau i'w riportio ac i gefnogi ein staff wrth inni ymdrin â'r problemau hyn.

*Cyng Taylor i'r Cyng Thorne*
A all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am weithrediad y protocol cardota a gytunwyd â Heddlu De Cymru?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Gyng Taylor, cyfeiriaf i'ch sylw yr ateb a ddarparwyd eisoes i'ch Cwestiwn Ysgrifenedig.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Taylor*
Ond tybed a wnewch gadarnhau yr hyn y mae'r Ymateb Ysgrifenedig yn ei ddweud yn union, oherwydd yn y frawddeg gyntaf dywedir bod Heddlu De Cymru yn datblygu menter o'r enw Ymgyrch Luscome, ac wedyn yn yr ail frawddeg dywedir nad yw Heddlu De Cymru yn cyflwyno Ymgyrch Luscombe; Oherwydd pan wnaethoch y datganiad i'r Cyngor ym mis Gorffennaf, dywedwyd yn bendant fod Ymgyrch Luscombe yn cael ei chyflwyno, ac wedyn cefais alwad gan Heddlu De Cymru ddiwrnodiau wedyn yn dweud nad oedd hynny'n wir. Mynegais bryder y tro diwethaf ynghylch effaith pentyrru trawma ar bobl sydd yn ddigartref, a'r mesurau cosb i ymdrin â digartrefedd. Felly allwch chi gadarnhau: a yw Ymgyrch Luscombe yn cael ei chyflwyno; os nad yw'r ymgyrch honno'n digwydd, a oes protocol cardota newydd yn cael ei gyflwyno yn y ddinas?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Rwy'n meddwl ei bod hi'n debygol bod ffordd Heddlu De Cymru o edrych ar y peth yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd, ac mae'r hyn a ddwedwyd yn fy natganiad yn gywir; mae gennym ddull gwahanol, ac mae Heddlu De Cymru yn

gweithio gyda'n tîm allgymorth. Rydym am wneud yn siŵr ein bod yn darparu'r holl gefnogaeth sydd o fewn ein gallu ac yn deall pam bod pobl yn cardota, a gweithio gyda'r tîm amlddisgyblaeth er mwyn ceisio datrys hynny. Felly rwy'n ymddiheuro os bu unrhyw ddryswch.

*Cyng Humphreys ar ran y Cyng Kaaba i'r Cyng Thomas*
A all yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor ynghylch y penderfyniadau polisi y mae'r weinyddiaeth wedi'u gwneud dros y 49 o ddiwrnodiau diwethaf.

*Ymateb – Cyng Thomas*
Mae hi wedi bod yn 7 wythnos brysur iawn on'd yw e? Ar wahân i'r cyfnod cenedlaethol o alaru marwolaeth Ei Mawrhydi Y Frenhines, rydym wedi bod yn brysur iawn, gan wneud penderfyniadau fis Medi, er enghraifft, ynghylch y Strategaeth Ailgylchu newydd, y Cynllun Eiddo Blynyddol, yn ogystal â chaffael contract adeiladu diwygiedig i gyflawni ein Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol. Gwnaethom hefyd gymeradwyo darpariaeth SOP ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Anghenion Dysgu Cymhleth ac Darpariaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth i Ddisgyblion Oed Cynradd ac Uwchradd. Yr wythnos diwethaf bu'r Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Llesiant Blynyddol, Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a Chweched Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl Caerdydd, y gwnaethom ni eu hystyried i gyd heddiw yn y Cyngor hefyd. Rydym hefyd wedi gwneud penderfyniadau ynghylch:

- Adolygu'r contract Gwasanaethau Hamdden gyda GLL;
- Ein Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2022-27;
- Ailddatgan Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Cathays;
- Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016;
- Cynllun Adfywio Llanrhymni;
- Ymrwymiadau i Ofalwyr Di-dâl;
- Cynllun Bws Trydan Caerdydd;
- Ac wrth gwrs, gwaith paratoadol am yr hyn a ragwelir fel setliad cyllidebol eithriadol o anodd.

Felly efallai fod eraill wedi bod yn mwynhau eu partïon, dyna'r oedden nhw'n ei wneud o'r blaen ynte; ond yn sicr mae hi wedi bod yn 7 wythnos brysur iawn mewn llywodraeth leol yma yng Nghaerdydd.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Humphreys*
Mae'n dda clywed bod Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn cael ei gyflwyno ar y fath gyflymder. Fodd bynnag, a yw’r Arweinydd yn cytuno â mi, a yw'n rhannu fy rhwystredigaeth ynghylch y cyferbyniad i hyn, yr anhrefn llwyr rydym wedi'i weld gan y Llywodraeth Geidwadol, ar adeg pan mae pobl yn fy ward yn Nhrelái ac ar draws y wlad yn erfyn am weithredu pendant a chefnogaeth yn argyfwng costau byw sydd ohoni?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Yn sicr Gyng Humphreys, ac rwy'n creu ei bod hi'n bwysig iawn inni gadw hyn mewn cof; efallai y byddwn yn chwerthin llond bol yn y Siambr hon wrth edrych ar giamocs a'r theatr sy'n digwydd yn San Steffan, ond ein hetholwyr mewn ward fel Trelái, fel yn fy ward i yn y Sblot, sy'n dioddef fwyaf yn sgil y llanast economaidd a achoswyd dros

y 7 wythnos diwethaf gan y Llywodraeth Dorïaidd. Ond rwy'n meddwl bod angen inni gofio hefyd nad ond y 7 wythnos diwethaf sydd dan sylw. Cawsom y carwsél hwnnw dros yr haf - etholiad, cystadleuaeth arweinyddol lle cafwyd y canlyniad gwaethaf posibl; a hyd yn oed cyn hynny roedd gan ein Prif Weinidog, Boris Johnson, fwy o diddordeb mewn amddiffyn ei hun a'i weithredoedd yn ystod sgandal y partïon, yn hytrach nag ymateb i'r argyfwng yr oedd y rhan fwyaf o bobl gyffredin yn gallu ei weld yn dod. Rwy'n edrych ar y modd y mae gwledydd eraill yng Ngorllewin Ewrop wedi ymateb i'r argyfwng hwn - ac mae rhai ffactorau byd-eang ar waith - ond nid yw yr un yn wynebu'r math o gyni ariannol, y math o doriadau, ac yn wir y fath bwysau ar gostau byw yr ydym ni bellach yn eu wynebu yn y wlad hon.

*Cyng McGarry i'r Cyng Michael*
Mae Noson Tân Gwyllt a'r dyddiau cyn ac ar ôl hynny yn achosi straen aruthrol i anifeiliaid anwes, anifeiliaid eraill a phobl. Pa bwerau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd i gyfyngu ar y defnydd o dân gwyllt neu eu gwahardd?

*Ymateb – Cyng Michael*
Mae'r mesurau rheoli cyfreithiol ar gyfer cyflenwi tân gwyllt wedi'u cynnwys o dan gyfraith diogelu defnyddwyr Llywodraeth y DU. Dim ond tân gwyllt defnyddwyr y caiff manwerthwyr eu gwerthu i'r cyhoedd, ac nid rhai gradd broffesiynol, ac onid oes gan y busnes drwydded arbennig i werthu tân gwyllt drwy'r flwyddyn, cyfyngir ar gyflenwad i bedwar cyfnod yn ystod y flwyddyn yn unig, gan gynnwys ychydig cyn Noson Tân Gwyllt a'r Flwyddyn Newydd. Yn ogystal â hynny, mae rheoliadau'n gwahardd cyflenwi tân gwyllt i ddefnyddwyr os yw lefel y sŵn yn uwch na 120 desibel. Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn cynnal gwiriadau blynyddol i sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân gwyllt perthnasol, gan gynnwys mesurau rheoli'n gysylltiedig ag oedran. Nid yw'n ofynnol i arddangosiadau tân gwyllt wedi'u trefnu gael eu trwyddedu gan y Cyngor; fodd bynnag, disgwylir y bydd yr asesiadau risg angenrheidiol wedi'u cynnal fel bo modd cynnal y digwyddiad yn ddiogel.

*Cyng Boes i'r Cyng Wild*
A oes gan Cadwch Gymru'n Daclus unrhyw bresenoldeb yn yr ysgolion ar hyn o bryd, i annog plant lleol i godi sbwriel a mynd i'r afael â maint y sbwriel yn y strydoedd wrth ymyl yr ysgolion, a thynnu sylw at effaith gollwng sbwriel?

*Ymateb – Cyng Wild*
Mae rhaglen Eco-Sgolion yn cael ei chynnal gan Cadwch Gymru'n Daclus; pwrpas y rhaglen yw grymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau er gwell yn eu hysgol ac yn y gymuned ehangach, ac mae'r rhaglen hefyd yn adeiladu eu sgiliau, eu rhifedd a'u llythrennedd, gan gynnwys Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae nifer o Eco-Sgolion eisoes yng Nghaerdydd; Byddwn yn awgrymu y byddai'n werth cysylltu â nhw. Mae’r prosiect yn un o nifer o brosiectau cyffrous yn y maes hwn ar draws Caerdydd. Gobeithiwn y bydd pob ysgol yng Nghaerdydd yn llofnodi'r Addewid Un Blaned, lle bydd ganddynt eu cynllun eu hunain. Cynlluniwyd yr addewid hwn ar y cyd â phobl ifanc. Roeddwn i yn i Siambr gwpl o wythnosau'n ôl, yn cymryd rhan mewn trafodaeth â'r Cyngor Ieuenctid, ac mae'r Cyng Merry a minnau'n edrych ymlaen yn wirioneddol i weld cynnydd yr ysgolion, ac rwy'n siŵr y byddwch chi i gyd mewn cysylltiad ag ysgolion yn eich

wardiau i drafod yr Addewidion Un Blaned, i weld sut y gellir creu cysylltiadau rhyngddynt a'r gymuned leol.

*Cyng Moultrie i'r Cyng Wild*
Rwy’n deall bod Ysgol Gynradd Sant Phillip Evans wedi cymryd rhan ym mhrosiect arloesi’r economi gylchol. Tybed a allwch ddweud mwy wrthyf ynghylch sut mae’r ysgol a’r disgyblion yn cymryd rhan yn yr economi gylchol?

*Ymateb – Cyng Wild*
Mae Ysgol Gynradd Sant Phillip Evans wedi creu cryn argraff. Cofrestrodd yr ysgol i gymryd rhan yn y prosiect hwn, Rhwydwaith yr Economi Gylchol, drwy Dîm Cwricwlwm Ymrwymiad Caerdydd. Rhwydwaith o brosiectau ydyw sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, Celsa Steel a'n tîm Caerdydd Un Blaned. Clywais athrawon yr ysgol yn siarad gydag angerdd gwirioneddol am y newid hinsawdd. Roedden nhw'n dweud pa mor angerddol y mae'r disgyblion yn teimlo ynghylch y mater, ac rwyf hefyd wedi cytuno i gyfarfod â nhw eto i glywed mwy am eu syniadau. Mae'r rôl fwyaf y gall y Cyngor ei chwarae gyda'r economi gylchol yn ymwneud â'n strategaeth ailgylchu, yr hyn a wnawn â'n deunyddiau; mae'n gyffrous iawn gweld pobl ifanc yn sylweddoli hyn, ac yn wir y cymunedau yma sy'n eu helpu, gan mai nhw fydd yn llenwi swyddi gwyrdd y dyfodol, ac os gallwn gasglu'r holl wastraff yna a didoli'r cyfan erbyn yr adeg pan fydd y bobl ifanc wedi gorffen eu haddysg a dysgu'r sgiliau hyn, swyddi gwyrdd. Bryd hynny, gobeithio y ceir diwydiant ailbwrpasu ac ailweithgynhyrchu, ac unwaith eto, mae'n dda iawn gweld eich bod chi Gynghorydd wedi cymryd rhan yn hyn, ac yn mynd ati'n wirioneddol i hyrwyddo hyn yn yr ysgol.

*Cyng Humphreys i'r Cyng De'Ath*
A allai’r Aelod Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cyngor am y broses sy’n cael ei thrafod ynghylch parcio anghyfreithlon ar Heol Llanfihangel y tu allan i'r Fynwent Orllewinol, a'r ymyl glaswelltog yr holl ffordd ar hyd y Rhodfa Fawr. Rwy'n deall gan gyd-aelodau hefyd fod hyn yn broblem drwy'r ddinas gyfan.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Rwy'n dychmygu bod hyn yn cythruddo eich preswylwyr yn lân. Mae swyddogion wedi bod allan, ac rwy'n deall mai grŵp penodol o geir sydd wedi bod yn parcio yn y lleoliadau hyn, a'u bod bellach wedi mynd, sy'n newyddion da. Ond y broblem sydd gennym yw'r ffaith nad oes Gorchmynion Rheoli Traffig i wahardd pobl rhag parcio mewn gwirionedd, felly rydym yn ystyried rhoi'r rheiny ar waith cyn gynted ag sy'n bosib, a gobeithio y dylai hynny ddatrys y broblem.

---

some consumption????? compensation?
despite this delay? doesn't make sense.
not sure what is meant here.

35 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

36 : AELODAETH O BWYLLGORAU

Derbyn enwebiadau a phenodi i swyddi gwag cyfredol ar bwyllgorau

, fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn unol â´r dyraniad seddi a gymeradwywyd

a dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO i dderbyn enwebiadau ac i benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgorau, yn unol â dymuniadau Grwpiau Gwleidyddol, fel y nodir yn Nhabl A ac ar y Daflen Newidiadau.

## 37 : PENODI CYNRYCHIOLWYR RHIANT LYWODRAETHWYR I'R PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

Gofynnwyd i'r Cyngor benodi cynrychiolwyr rhiant lywodraethwyr i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i lenwi dwy sedd wag.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO i gymeradwyo penodi Bridgid Corr a Celeste Lewis yn gynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, y naill a'r llall am gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau ar 27 Hydref 2022.

## 38 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 17 (f) a dderbyniwyd i'w hystyried ynghyd â'r ymatebion fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.